**Cyngor Cymuned Llaneilian (382)**
Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd Gorffennaf 8, 2025 am 7yh yn Neuadd Bentref Penysarn.

**Presennol:** Dafydd Griffiths, Dewi Jones, Carol Whitaker, John Griffiths, Gordon Hayes, Hefina Williams, Liz Wood, Carli Evans Thau (Clerc)

**Ymddiheuriadau:** Alan Williams, Patsy Allen, Ian Evans, James Roe, Alison Williams, Derek Owen

**1 Croeso**

Bu Dafydd Griffiths gadeirio'r cyfarfod a chroesawu pawb yn bresennol.

**2 Datgan Diddordeb**

Hefina Williams – Perllan

**3 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

Cymeradwywyd y cofnodion – cynnig Gordon Hayes, eilio Hefina Williams.

**4 Materion yn Codi**

4.1 Bu diolch i'r sawl fu'n gyfrifol am lanhau a phaentio'r cysgodfan bws yng nghanol y pentref. Bu'r clerc gadarnhau bod y meinicau ar gyfer y cysgodfannau wedi cyrraedd, a bydd angen trefnu eu gosod dros yr wythnosau nesaf.

4.2 Bu Liz Wood gadarnhau bod cais cynllunio Gadfa Newydd wedi ei alw ger bron y Pwyllgor Cynllunio ac nad oedd bwriad newid hynnu er bod gwybodaeth pellach wedi ei gyflwyno gan yr ymgeisydd.

**5 Diweddariadau**

5.1 Caeau Chwarae – bu cadarnhau bod rhannau wedi eu derbyn gan Playquest i drin yr offer fel bo angen. Cafwyd cadarnhad bod y ffens ym Maes Llwyfo wedi ei drin fel bo angen a bu diolch i'r aelodau hynnu fu ynghlwm a'r gwaith er budd y gymuned.

5.2 Llithrfa – cadarnawyd bod ceisiadau am 20 goriad hyd yma. Mae'r postyn yn parhau yn ei le. Cadarnhawyd bod y clerc wedi cysylltu a CSYM yn datgan bwriad y Cyngor Cymuned i osod fflag ar y polyn er diogelwch ac y byddai'r gost yn cael eu gynnwys yng nghostau gweinyddu'r cynllun.

5.3 Mynwent – cafwyd gadarnhad gan DE Griffiths ei fod yn bwriadu cychwyn ar y gardd goffa o fewn pythefnos, ac y byddai yn blaenoriaethu'r bas ar gyfer y mainc tuag at Balog.

5.4 Polisi a Chyllid – dim i'w adrodd

5.5 Cronfa TMI – cadarnhawyd bod y meinicau ar gyfer y cysgodfannau bws wedi cyrraedd erbyn hyn. Bu gytuno byddai'r pwyllgor yn cwrdd ym mis Medi am ddiweddariad am brosiectau yn gyffredinol.

5.6 Llwybrau – cadarnhawyd byddai gosod y byrddau gwybodaeth cylchdeithiau yn y cysgodfannau bws fel man cychwyn. Nodwyd bod angen cydlynnu dyddiadau posib ar gyfer gwirfoddolwyr i osod yr arwyddion (ac arwyddion baw ci). Cytuno gofyn i CSYM am ganiatad i osod un o'r byrddau wybodaeth ar y wal o dan y bont dros Lon Tyddyn Waen. Bydd anfon rhestr o ddyddiadau posib ar gyfer teithiau tywys cymunedol dros yr haf i'w rhannu yn fuan.

Bu'r clerc gadarnhau bod y rhai o'r Llwybrau wedi eu torri, ond nad oedd pob un wedi cael sylw hyd yma. Cadarnhawyd bod y rhestr waith wedi ei anfon i Dafydd Griffiths er gwybodaeth ac i wirio'r gwaith yn erbyn y cytundeb.

5.7 Pwyllgorau Allanol – ni fu adroddiad

5.8 Bioamrywiaeth a Chynllun Bioamrywiaeth – bu gohurio'r drafodaeth nes bydd Patsy Allen a

mwy o aelodau yn bresennol.

Bu ofyn i Liz Wood wirio gyda CSYM am ddiweddariad am y coed sydd wedi eu gaddo ar gyfer y llecyn gwrdd wrth ddod i fewn i'r pentref.

**6** **Prosiect Cysylltu a Natur**

Wedi ei drafod eisioes – gweler llwybrau uchod.

**7** **Materion Priffyrdd**

Bu tynnu sylw bod angen sylw pellach i'r llysdyfiant ar hyd y ffordd osgoi – mae'r arwydd fflachio yn gweithio pob hyn a hyn, a bu teimlo bod y coed o'i flaen yn ei atal rhag gweithio yn iawn.

Nodwyd nad oedd yr amserlen electroneg yn y safle bws ger Stad Dublin yn gweithio (eto), mae'r clerc eisioes wedi tynnu sylw CSYM.

**8** **Cynllunio**

Cadarnhawyd bod unrhyw ddogfennau cynllunio wedi eu hanfon i'r aelodau drwy ebost.

8.1 Ceisiadau –

FPL/2025/140 Glanrafon – cefnogi ar yr amod bod y datblygiad yn sensitive ac yn cadw cymeriad yr anedd presennol, ac na fyddai ceisidau i'r dyfodol i newid y cynlluniau hynnu.
FPL/2025/85 Gadfa Newydd – cydnabod bod mwy o wybodaeth wedi ei gyflwyno a bod y cais yn parhau wedi ei alw ger bron y Pwyllgor Cynllunio.

8.2 Penderfyniadau – cafwyd wybod am benderfyniadau CSYM fel a ganlyn –
Fairwinds (VAR/2025/19) wedi ei ganiatau

8.3 Gorfodaeth – ni fu ddiweddariad pellach gan y swyddog gorfodaeth. Ers i'r Cyngor Cymuned ofyn am wybodaeth, mae'r dogfennau ar gyfer yr estyniad gwreiddiol ar y we, ac nid yw'r hyn sydd wedi ei adeiladu yn cyfateb i'r cynlluniau ar hyn o bryd. *Ers y cyfarfod, sylwir mai dim ond rhan o'r estyniad/anecs sydd wedi ei adeiladu hyd yma.*

**9** **Materion Ariannol**

9.1 Taliadau - Cymeradwywyd y taliadau canlynol –
£594.25 Cyflog Clerc
£256.85 Costau Clerc Ebrill – Mehefin
£36.00 Playquest (Cae chwarae Lon Tyddyn Waen)
£166.98 Huws Gray (Ffens Maes Llwyfo)
£18.00 Huws Gray (Ffens Maes Llwyfo)
£83.42 Amazon (inc)

9.2 Ceisiadau am Arian
Daw llythyr diolch gan ddisgyblion Cyfnod Sylfaen Ysgol Gynradd Penysarn.
Nodwyd nad oedd digon o aelodau yn bresennol nad oeddent ynghlwm a'r Neuadd i allu trafod cais yr ymddiriedolwyr am gefnogaeth ariannol.

9.3 Adroddiad Chwarterol
Bu cadarnhau bod yr adroddiad wedi ei ebostio i'r aelodau cyn y cyfarfod, a bu dosbarthu copiau i'r sawl oedd yn bresennol. Ni fu cwestiynnau yn codi.

9.4 Archwiliad 2024/25
Cadarnhawyd bod yr adroddiad gan yr archwiliwr mewnol wedi ei ddosbarthu i'r aelodau er gwybdoaeth. Bu tynnu sylw at pwyntiau penodol oedd wedi eu codi –

- Cynllun Bioamrywiaeth – nodwyd bod yn eitem sefydlog ar yr agenda, a bod cynllun wedi ei fabwysiadu yn ol ym Mawrth 2023. Mae adolygiad ar y gweill ar hyn o bryd.
- Cynllun Hyfforddiant – cadarnhawyd bod gwybodaeth am gyfleon hyfforddi yn cael eu rhannu gyda'r aelodau yn gyson a bod taenlen yn cofnodi'r cyrsiau sy'n cael eu mynychu gan yr aelodau.

- Taliadau Lwfansau Aelodau – pwysleiswyd yr angen am ffurfenni unigol gan pob aelod. Bu gadarnhau bod y dogfennau yma yn cael eu harwyddo yn flynyddol.

**10** **Coedwig Cymunedol (Perllan)**
Trafodwyd y ddogfen prydles oedd wedi ei derbyn gan CSYM gan nodi nifer o bryderon. Cytuno yn unfrydol cysylltu a chwmni Parry Davies Clwyd Jones & Lloyd am bris i wirio'r ddogfen ar ran y Cyngor Cymuned.

**11** **Llwybr Lon Gors – Lon Lletroed**
Mae gobeithio cwrdd a swyddogion perthnasol CSYM bore Llun Gorffennaf 14 – amser iw gadarnhau.

**12** **Trafnidiaeth Cyhoeddus (Penysarn – Amlwch)**
Cytuno gofyn i Iwan Cadwaladr am ddyddiadau posib ar gyfer cyfarfod. Unwaith bydd cadarnhau dyddiad bydd gwahodd cynrychiolaeth o gynghorau eraill ward Twrcelyn i ymuno a'r drafodaeth.

**13** **Cysgodfan Bws Pengorffwysfa**
Bu trafod cyflwr yr adeilad. Bu cytuno byddai torri'r iddew o amgylch y drws a'i dwtio fel bod posib glanhau'r tu mewn a'i baentio. Bydd gosod meinicau pob pen ac un o'r byrddau gwybodaeth ynddo.

**14** **Iechyd a Diogelwch**
Dim materion nad oedd eisioes wedi eu trafod.

**15** **Gohebiaeth**
Cadarnhawyd bod eitemau o ohebiaeth wedi eu hanfon ir aelodau drwy ebost wrth eu derbyn. Bu tynnu sylw at ebost yn cwyno am gerbyd sydd wedi ei barcio ym Maes Parcio Top Rallt ers rhai misoedd, cytuno gwirio gyda CSYM pa bwerau sydd i'w symud.

**16** **Unrhyw Fater ar gyfer Agenda'r Cyfarfod Nesaf**
Aelodau i gysylltu a'r clerc mewn da bryd os am gynnwys eitemau ar yr agenda.

Nodwyd bod angen baner newydd ar yr Ysgol Gynradd, Dewi Jones i wirio mynediad i'r polyn a threfu gosod baner newydd cyn dechrau'r flwyddyn ysgol newydd.

**17** **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**
Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor Llawn am 7yh nos Fawrth, Medi 9, 2025.

Bu'r cyfarfod orffen am 8.15yh o'r gloch
**Dafydd Griffiths, Cyngor Cymuned Llaneilian**
CET07/25